

Pwyllgor Ymgynghorol Cafcass Cymru
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Mawrth 2018
Swyddfeydd Cafcass Cymru, Parc Cathays, Caerdydd

Yn bresennol:

Jackie Murphy
Paul Apreada
Catrin Cracroft
Sarah Coldrick
Christopher Dunn
Gareth Jenkins
Denise Inger
Sean O'Neill
Dan Ronson
Rakshanda Shahzad

Tros Gynnal Plant (Cadeirydd)
FNF Both Parents Matter Cymru
Cynrychiolydd Cymdeithas y Gyfraith
AFA Cymru
Voices from Care
ADSS Cymru
SNAP Cymru
Plant yng Nghymru
Cyngor Cyfryngu Teuluol
BAWSO

Claire Evans
Khadija Lewis

Bwrdd Pobl Ifanc Cyfiawnder Teuluol / Cafcass
Bwrdd Pobl Ifanc Cyfiawnder Teuluol

Nigel Brown
Matthew Pinnell
Ben Eaton
Rhianon James

Cafcass Cymru
Cafcass Cymru
Cafcass Cymru
Cafcass Cymru (ysgrifenyddiaeth)

Thom Hadfield
Kate Johnson

Llywodraeth Cymru
Llywodraeth Cymru

1. Croeso

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i longyfarch Matthew ar sicrhau ei swydd fel Dirprwy Brif Weithredwr.

2. Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau

Arweiniwyd cyflwyniadau o amgylch y bwrdd gan y Cadeirydd. Ymunodd Thom Hadfield a Kate Johnson â'r cyfarfod fel sylwedyddion fel rhan o raglen datblygu Llywodraeth Cymru.

Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth:

Eleri Butler
Sharon Lovell
Des Mannion

Cymorth i Ferched Cymru
NYAS
NSPCC Cymru

HHJ Helen Mifflin
James O'Reilly
Zoe Richards
Hugh Simkiss
Rachel Thomas

Y Farnwriaeth
Comisiwn y Gwasanaethau Cyfreithiol
Anabled Dysgu Cymru
HMCTS
Comisiynydd Plant Cymru

3. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Tachwedd 2017 - eu llofnodi cyn eu cyhoeddi ar wefan Cafcass Cymru

Cytunwyd ar y cofnodion fel cofnod gwir a chywir.

4. Materion yn codi

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

5. Atgyfeiriadau a Pherfformiad

Rhoddodd Nigel Brown drosolwg o'r adroddiad perfformiad a ddosbarthwyd cyn y cyfarfod. Mae baich gwaith Cafcass Cymru yn parhau i gynyddu a chanmolodd Nigel Brown y staff am eu hymrwymiad i ymateb i'r her hon.

Yn gyffredinol mae ceisiadau'r gyfraith gyhoeddus wedi cynyddu yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, gyda chynnydd o 20.8% yn 2016-17, a chynnydd o 7% pellach yn 2017-18. Mae ceisiadau Adran 31 wedi cynyddu yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, gyda chynnydd o 6.3% yn genedlaethol ar ben y cynnydd o 29.8% yn 2016-17. Mae'r cynnydd yn amrywio ledled Cymru.

Cafwyd cynnydd sylweddol yn yr Atgyfeiriadau Cyfraith Gyhoeddus adran 31 ansafonol a nodwyd bod 48% o'r ceisiadau bellach yn geisiadau ansafonol h.y. mae achosion yn cael eu rhestru ar gyfer y gwrandawriad cyntaf cyn diwrnodau 12 i 18 fel y nodir gan Amlinelliad y Gyfraith Gyhoeddus ar gyfer achosion safonol. Mae Cafcass Cymru yn archwilio'r rhesymau dros y cynnydd hwn gyda'r farnwriaeth a'r awdurdodau lleol.

Gofynnodd Paul Apreda am y gwaith a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwella canlyniadau i blant 'sy'n derbyn gofal'. Dywedodd Nigel fod y gwaith hwn yn symud yn eithaf cyflym ac yn cynnwys rhaglen waith gynhwysfawr.

Mae nifer yr Adroddiadau Ymholiadau Diogelu (SERs) a'r Ymatebion Gwirio Gorfodi (ECRs) wedi cynyddu dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Caiff dros 93% o SERs eu ffeilio o fewn yr amser penodedig. Cofnodwyd bod bron i 60% o FHDRA yn cael eu datrys yn llawn yn y llys. Holodd Paul Apreda am y diffiniad o "ddatrys yn llwyr" a chafwyd trafodaeth i ddilyn ar y derminoleg. Cytunwyd y rhoddir ystyriaeth i ollwng y gair "llawn" gan newid y categori i "Datryswyd".

Hysbysodd Nigel Brown yr aelodau fod Cafcass Cymru yn gweithio gyda Sefydliad Nuffield o ran trosglwyddo ei ddata gweinyddol i SAIL (a leolir ym Mhrifysgol Abertawe). Mae SAIL yn darparu canolfan ddata ddiogel a chyfrinachol y gall ymchwilwyr ei defnyddio i fod yn sail i'w hymchwil i hysbysu ein dealltwriaeth o anghenion a phrofiadau plant a phobl ifanc. Yn gysylltiedig â hyn mae Matthew Pinnell wedi bod yn cynorthwyo gwaith i ddatblygu Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol i Gymru a Lloegr. Bydd rhagor o wybodaeth am y prosiect hwn yn cael ei rhannu mewn cyfarfod yn y dyfodol.

6. Rhaglen Arloesi Cafcass Cymru

- Cynllun Peilot Dadansoddi Effeithiau ar Blant

Rhoddodd Matthew Pinnell drosolwg byr o'r Cynllun Peilot Dadansoddi Effeithiau ar Blant, y gwnaeth Cafcass Cymru, ynghyd â dwy ardal yn Lloegr, ei dreialu rhwng mis Gorffennaf a mis Medi yng Ngogledd Cymru. Ar ôl gwerthuso'r cynllun peilot a derbyn adborth cadarnhaol gan y farnwriaeth, HMCTS a defnyddwyr y gwasanaeth, mae Cafcass Cymru yn bwriadu gweithredu'r model Dadansoddi Effeithiau ar Blant bob yn dipyn ar draws Cymru gyda'r bwriad iddo fod yn gweithredu ym mhob ardal erbyn Ionawr 2019. Bydd y cam cyntaf yn dechrau ym Mehefin 2018 yng Ngogledd Cymru a Gwent.

Gofynnodd Paul Aprea a ellid darparu dogfen neu fideo ar gyfer y plant i egluro'r broses. Dywedodd Nigel Brown fod trefniadau ar y gweill i gael taflen wybodaeth ar gael i blant a phobl ifanc.

- Ymateb i'r Baich Gwaith Cynyddol

Mae Cafcass Cymru yn parhau i brofi cynnydd sylweddol yn y gwaith cyfraith gyhoeddus a phreifat. Mae'r sefydliad wedi cyflwyno nifer o ddulliau o ymdrin â'r cynnydd hwn ac eglurodd Matthew Pinnell mai un o'r ffrydiau gwaith oedd "Wythnos ym Mywyd" (WILO) sydd wedi ceisio deall patrwm gwaith ymarferwyr ar lefel ddyfnach ar draws Cymru. Un o'r meysydd y mae'r ymarferiad wedi'i nodi yw amser teithio i ymarferwyr ledled Cymru (ac nid dim ond yr ardaloedd mawr, gwledig yng Ngogledd a Chanolbarth Cymru) a fydd yn helpu i fod yn sail i waith grŵp sy'n edrych ar sut yr ydym yn dyrannu achosion.

Mae Cafcass Cymru hefyd wedi sefydlu ffrwd waith iechyd a lles i staff i ddatblygu ar yr adnoddau a'r gefnogaeth sydd eisoes yn cael eu cynnig gan Lywodraeth Cymru a fydd yn darparu dull wedi'i deilwra yn seiliedig ar anghenion gweithredol. Mae Cafcass Cymru yn gweithio'n agos gyda Cafcass yn y maes hwn.

7. Canllawiau Arfer Da am Ofal am Berthnasau y Fframwaith Maethu Cenedlaethol

Cyflwynodd Sarah Coldrick - "Canllawiau Arfer Da ar gyfer Asesu a Chefnogi Gofalwyr Maeth o blith Perthnasau" y Fframwaith Maethu Cenedlaethol a ddatblygwyd gydag ymarferwyr, academyddion, Cafcass Cymru, gofalwyr a phobl ifanc. Roedd y prif bwyntiau'n cynnwys ceisio adnabod gofalwyr sy'n berthnasau yn gynnar, ymgysylltu ag aelodau ehangach o'r teulu a phwysigrwydd cyfarfodydd teulu. Cyflwynir y canllawiau yng nghyfarfod y Rhwydwaith Cyfiawnder Teuluol ar 21 Mawrth 2018.

Diolchodd y Cadeirydd i Sarah am ei chyflwyniad defnyddiol a chryno.

8. Diweddariad am Ddiwygio Cyfiawnder Teuluol

Dywedodd Nigel Brown nad oedd fawr ddim newydd i'w ddweud am Ddiwygio Cyfiawnder Teuluol. Bu dros flwyddyn ers i'r Bwrdd Cyfiawnder Teuluol gyfarfod.

Hysbysodd Nigel Brown y cyfarfod fod adolygiad o dan arweiniad y sector, dan arweiniad Y Grŵp Hawliau Teuluol, i'r cynnydd yn nifer y plant sy'n derbyn gofal i fod i roi adroddiad ym mis Mehefin 2018.

9. Bwrdd Pobl Ifanc Cyfiawnder Teuluol - Cyflwyniad

Rhoddwyd croeso cynnes i Claire Evans a Khadija Lewis. Claire yw Swyddog Gwasanaethau Busnes Prif Weithredwr Cafcass a Bwrdd Pobl Ifanc Cyfiawnder Teuluol (FJYPB) ac mae Khadija yn aelod o FJYPB. Rhoddodd Claire a Khadija drosolwg i'r aelodau o'r FJYPB a soniwyd am ei brosiectau yn y dyfodol. Ar hyn o bryd mae'r FJYPB yn recriwtio aelodau newydd ac mae'n gobeithio cynyddu ei aelodaeth yng Nghymru. Darparwyd trosolwg o'r gwaith a wnaed gyda Cafcass Cymru dros y flwyddyn ddiwethaf sy'n cynnwys: datblygu logo newydd ar gyfer Cafcass Cymru, cymryd rhan mewn recriwtio staff a hwyluso'r gynhadledd staff sydd i ddod.

Diolchodd y Cadeirydd i Claire a Khadija am eu cyflwyniad manwl ac addysgiadol a hefyd am eu hymatebion defnyddiol ynghylch ffyrdd o gynyddu aelodaeth i'r Bwrdd.

10. Unrhyw Fater Arall

Atgoffodd Nigel Brown yr aelodau y cynhelir y cyfarfod nesaf ar 10 Gorffennaf a bydd yn dechrau am **9:30 a.m.**

Diolchodd y Cadeirydd i aelodau Pwyllgor Ymgynghorol Cafcass Cymru am eu cyfraniad gwerthfawr i'r cyfarfod.